# Cylch Trawsbleidiol y Gogledd a Glannau Merswy Dyfrdwy yn y Cynulliad Cenedlaethol

# Cofnodion y cyfarfod cyntaf ar 24ain Mai 2017

## Presenoldeb

Dywedwyd bod yr etholiad cyffredinol a gwaith y Cynulliad wedi effeithio ar bresenoldeb yr aelodau yn y Cynulliad a bod proses ddilynol yr etholiadau lleol wedi rhwystro arweinyddion awdurdodau lleol rhag dod am fod rhai cynghorau heb eu sefydlu ar eu newydd wedd eto.

### Aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol

Hannah Blythyn (cadeirydd), Mark Isherwood, Ann Jones, Llŷr Griffith

### Staff cynorthwyo aelodau yn y Cynulliad

Josh Bell (Swyddfa Hannah Blythyn)

### Partneriaid

Y Cynghorydd Derek Butler, (Cyngor Sir y Fflint – Cadeirydd Cynghrair Merswy Dyfrdwy), Iwan Trefor Jones (Dirprwy Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd a Phrif Swyddog Bwrdd Uchelgais Economaidd y Gogledd), Mark Livesey (Dirprwy Brif Weithredwr Cylch Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaer).

Steve Thomas (Prif Weithredwr WLGA), Stephen Jones (Cydlynydd Rhanbarth y Gogledd)

### Siaradwyr

Ken Skates (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Isadeiledd) ynghyd â'i swyddogion, Rhodri Griffiths ac Andrew Johnson.

## Cadeirydd a diben y cyfarfod

Ar ôl ysgwyddo rôl cadeirydd a gofyn i bawb ei gyflwyno ei hun, esboniodd Hannah Blythyn AC ddiben y cyfarfod:

Bydd y cyfarfod yn sefydlu cylch trawsbleidiol a fydd yn rhoi llais cryf i siroedd y gogledd yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n hanfodol i aelodau sy'n cynrychioli'r gogledd yn y Cynulliad gydweithio mewn modd cryf a chydlynol i hyrwyddo cais arfaethedig y rhanbarth am arian er twf economaidd a hwyluso'r gwaith trawsffiniol a fydd yn arwain at dwf o'r fath.

# Prif anerchiad

Ar ôl saib er cof am y rhai oedd wedi'u lladd a'u hanafu o ganlyniad i'r ymosodiad ar Arena Manceinion, dywedodd Ken Skates AC fod y Prif Weinidog wedi anfon llythyr at Faer Ardal Manceinion i fynegi cydymdeimlad pobl Cymru cyn annerch y gynulleidfa fel a ganlyn:

"Mae gan siroedd y gogledd hanes o lwyddiant er lles economi Cymru. Bydd partneriaethau cryfach yn y rhanbarth ac o'i amgylch i ddatblygu'r economi yn arwain at ragor o dwf.

Mae gweithgarwch economaidd y gogledd ac incwm ei deuluoedd yn uwch na chyfartaledd Cymru bellach. Mae miliwn o deithiau trawsffiniol y mis yng nghyffiniau Glannau Merswy a Dyfrdwy ar gyfer gwaith. Mae'r gogledd yn gysylltiedig â Phwerdy Gogledd Lloegr a bydd yn rhan hanfodol o'r bwriad i gydbwyso economi'r Deyrnas Gyfunol.

Mae Llywodraeth Cymru yn llunio strategaeth er diogelwch a ffyniant i geisio rhannu buddion twf a lleddfu tlodi. Mae'n bwriadu gweithredu fel a ganlyn i hybu economi'r gogledd:

- rhoi ffyniant i bawb a mynd i'r afael ag amddifadedd anodd ei leddfu;
- manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd euraidd i hwyluso twf economaidd trwy'r tair ffordd drawsffiniol rhwng y dwyrain a'r gorllewin:
    - cefnffordd yr A55/M56 rhwng Caergybi a Manceinion;
    - cysylltiadau'r gorllewin a'r canolbarth â chanolbarth Lloegr;
    - traffordd yr M4 rhwng Abertawe, Caerdydd a Bryste;
- manteisio i'r eithaf ar gytundebau er twf economaidd yn y Deyrnas Gyfunol – y rhai er lles rhanbarthau a sectorau fel ei gilydd (bydd cytundebau sectorol yn galluogi'r gogledd i gysylltu â chlwstwr niwclear Swydd Gaer ar gyfer atomfa newydd yr Wylfa a chysylltu â chanolfan gwneuthur nwyddau cymhleth de Swydd Efrog ar gyfer y rhai ychwanegol ym Mhenbedw ac ar Lannau Dyfrdwy);
- cryfhau cysylltiadau'r gogledd â siroedd gogledd-orllewin Lloegr er lles diwydiant yr ymwelwyr trwy'r Coridor Diwylliannol gan gynnwys Caer.

Mae nifer o sectorau pwysig yn siroedd y gogledd (gan gynnwys Glannau Merswy Dyfrdwy) a Phwerdy Gogledd Lloegr yn cydblethu:

- gwasanaethau ariannol a phroffesiynol yng Nghaer a Wrecsam;
- diwydiannau gwneuthur nwyddau cymhleth yn y gogledd-ddwyrain er lles gweddill y rhanbarth, hefyd;
- ynni (y rhanbarth i gyd).

Bydd strwythur ffederal i'r ganolfan arfaethedig ar gyfer gwneuthur nwyddau cymhleth ar Lannau Dyfrdwy. Bydd yn ymwneud â'r canlynol:

- Airbus
- Porth y Gogledd
- Wrecsam
- Llanelwy

Rhaid i ymchwil, datblygu ac arloesi fod yn flaenoriaeth mewn unrhyw strategaeth ar gyfer diogelwch a ffyniant rhanbarth y gogledd.

Bydd tuedd i ddatblygu'r economi fesul bro er ffyniant a diogelwch – bydd hynny'n disodli'r dull blaenorol oedd wedi'i seilio ar naw sector blaenoriaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio hyrwyddo a datblygu gallu pob rhanbarth yn ogystal â chydweithio'n agosach â'r awdurdodau lleol. Bydd yn ystyried gadael i'w staff datblygu economaidd weithio ochr yn ochr â rhai'r awdurdodau lleol.

Bydd yn cynnig tri neu bedwar sector blaenoriaeth i bob rhanbarth. Yn siroedd y gogledd, er enghraifft, gallai gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, ynni/niwclear, gwneuthur nwyddau cymhleth a thwristiaeth antur fod ar gael.

Bydd angen isadeiledd, medrau, safleoedd a chymorth a fydd yn gweddu i uchelgeisiau pob rhanbarth.

Mae llawer o bobl yn y gogledd heb allu dod o hyd i swydd o achos cludiant gwael. Diben y cynigion ynglŷn â 'Symud Gogledd Cymru', 'Ein Delfryd ar gyfer y Gogledd' a Metro'r de-ddwyrain yw datrys problemau o'r fath.

Mae'n arbennig o bwysig inni wella rhwydwaith y bysiau fel y bydd swyddi da o fewn cyrraedd i bobl ardaloedd difreintiedig."

Argymhellodd Ysgrifennydd y Cabinet y dylai'r cylch trawsbleidiol weithio yn ôl y rhaglen isod:

- adolygu manteision HS2 i siroedd y gogledd a gofyn i Growth Track 360 gynllunio ar gyfer cyfnewidfa yn Swydd Gaer;
- cwrdd â'r cyrff sy'n hyrwyddo cais arfaethedig y gogledd er twf economaidd a'r datganoli i Swydd Gaer.

Ynglŷn â'r cais er twf economaidd, byddai'n hanfodol i'r rhanbarth ychwanegu at ei gryfderau strategol allweddol ac osgoi strategaethau buddsoddi plwyfol. Rhaid blaenoriaethu bröydd lle y byddai buddsoddi o'r fath mor effeithiol ag y bo modd.

Cyn gorffen, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yr hoffai fynychu cyfarfodydd y cylch o hynny ymlaen.

## Trafodaeth

Gofynnodd Llŷr Griffith i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau pawb y byddai Llywodraeth Cymru yn ymwneud â pharatoi cais siroedd y gogledd a threfn llywodraethu'r ariannu wedyn.

Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet fod rheolau Llywodraeth San Steffan yn gofyn i bartneriaid lleol sefydlu corff llywodraethu cytundeb o'r fath. Dywedodd fod prifysgolion, colegau a'r byd masnachol yn pryderu y gallai eu dylanwad gael ei wanhau mewn unrhyw gydbwyllgor y gallai'r awdurdodau lleol ei sefydlu a'i arwain.

Prif rôl cydbwyllgor fyddai llunio ffordd ranbarthol strategol o fanteisio i'r eithaf ar arian prin a chynlluniau twf economaidd. Trwy ganolbwyntio ar flaenoriaethu effeithiau, fe ddylai fod modd osgoi gwasgaru'r arian ar brosiectau plwyfol bychain.

Hoffai Llywodraeth Cymru drin a thrafod y broses trwy ymateb i bob cais unigol am gymorth a helpu i feithrin cysylltiadau trawsffiniol. Byddai rhaid cydymffurfio â pholisïau Llywodraeth Cymru i ennill sêl bendith Llywodraeth San Steffan.

Soniodd Mark Isherwood am y canlynol:

- HS2 a'r angen i ymgyrchu dros gyfnewidfa yn Swydd Gaer fyddai'n helpu i ddatblygu gwasanaethau trenau cyflym ac aml i'r gogledd.

- Yn ôl diffiniad Llywodraeth San Steffan, diben cais siroedd y gogledd am arian er twf economaidd fyddai meithrin cysylltiadau cryf â siroedd y gogledd a Phwerdy Gogledd Lloegr yn ogystal â hwyluso proses datganoli pwerau o Fae Caerdydd a San Steffan.

Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai rhaid nodi diben eglur cyn datganoli pwerau. Dylai amryw rannau'r cytundeb yrru'r datganoli roedd siroedd y gogledd wedi gofyn amdano. Fe ddywedodd ei fod o blaid rhagor o annibyniaeth i'r gogledd ynglŷn â hyrwyddo ei ddatblygu economaidd. Byddai'n ystyried sefydlu rhywle yn y gogledd uned ddatblygu economaidd lle y byddai swyddogion gwladol a llywodraeth leol yn gweithio ochr yn ochr.

Fe groesawodd Steve Thomas y bwriad i ddatblygu economïau fesul bro, yn ogystal â'r twf cynhwysol roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i ddisgrifio. Byddai angen ceisio gwella safon y swyddi a'r incwm yn gyffredinol yn hytrach nag anelu at greu swyddi o fri a hwyluso twf y gwerth crynswth ychwanegol.

Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet yr hoffai weld cytundeb economaidd newydd rhwng yr adrannau gwladol a'r asiantaethau sy'n hybu datblygu economaidd trwy ganolbwyntio ar:

- Safon swyddi (mae rhagor o bobl yn gweithio – y gamp bellach yw gwella ansawdd eu swyddi).
- Cynhyrchiant.
- Rhagweld tuedd i ddefnyddio mwy a mwy o beiriannau yn lle gweithwyr.
- Creu cyfoeth a chyfleoedd mewn ardaloedd difreintiedig sydd ar ei hôl hi.

Rhaid mynd i'r afael â chyflogau isel ac arferion cyflogi annheg, cywiro problemau strwythurol yr economi, lleddfu anghydraddoldeb a chryfhau ffyniant er lles pawb.

Fesul bro y byddai ymdrechion i gywiro problemau strwythurau economaidd yn digwydd.

Rhaid inni ehangu dangosyddion cyflawniad i gwmpasu mwy na swyddi a'r gwerth crynswth ychwanegol. 'Incwm sydd ar gael i bob cartref' fyddai orau gan Lywodraeth Cymru.

## Sefyllfa Bwrdd Uchelgais Economaidd y Gogledd – Iwan Trefor Jones

Mae'n dda gan Fwrdd Uchelgais Economaidd y Gogledd ac awdurdodau lleol y rhanbarth fod nifer o aelodau yn y Cynulliad wedi sefydlu cylch fydd yn hybu buddiannau economaidd y gogledd ym Mae Caerdydd.

Bydd y bwrdd a'r cynghorau lleol yn cydweithio'n agos â'r cylch trawsbleidiol.

Sefydlwyd y bwrdd yn sgîl pryder nad oedd economi'r rhanbarth yn ddigon cryf o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru a'r Deyrnas Gyfunol ynglŷn â:

- cynhyrchiant, incwm a safonau byw;
- buddsoddi.

Mae'r bwrdd wedi galluogi sefydliadau'r rhanbarth i gydweithio'n drefnus yn ôl dibenion a blaenoriaethau maen nhw wedi'u pennu ar y cyd.

Mae nodau'r bwrdd wedi'u defnyddio wrth baratoi'r cais er twf gan geisio hybu cryfderau'r rhanbarth a chyd-fynd â strategaethau diwydiannol ac economaidd Llywodraeth San Steffan

a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd. Bydd unrhyw gytundeb sy'n deillio o'r cais yn ymwneud â thwf cynhwysol hefyd, trwy geisio gofalu bod manteision twf ar gael i'r rhanbarth i gyd.

Mae cais y gogledd wedi'i seilio ar ddelfryd y dylai'r economi gael ei datblygu mewn modd cyfannol. Mae'n cynnig buddsoddi mewn cludiant, medrau, cymorth er masnach ac arloesi a chyfuno'r cynllunio ar gyfer tai, cludiant a swyddi.

Mae siroedd y gogledd yn cydweithio ag asiantaethau trawsffiniol i gysylltu'r rhanbarth â Phwerdy Gogledd Lloegr a chydlynu ceisiadau gogledd Cymru ac amryw bartneriaethau lleol gogledd-orllewin Lloegr – Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaer, yn bennaf.

Mae'r bwrdd yn croesawu'r syniad y dylai fod rhagor o arwain a datblygu economaidd fesul bro.

Mae'r rhanbarth yn edrych tuag allan ac mae pawb wedi dod ynghyd ar gyfer diben eglur – datblygu cwmnïau arloesol mewn sectorau uchel eu gwerth:

- ynni: atomfeydd, gwynt, llanw'r môr ac ati;
- gwneuthur nwyddau cymhleth: awyrennau, ceir a nwyddau'r golwg;
- diwydiannau digidol a chreadigol.

Mae twristiaeth antur yn denu ymwelwyr sy'n perthyn i sector uchel ei werth.

Gallai cais siroedd y gogledd am arian er twf wella'r canlynol:

- cludiant, yr isadeiledd a gwasanaethau;
- medrau;
- cymorth ar gyfer twf masnachol ac arloesi;
- argaeledd safleoedd ac adeiladau ar gyfer cwmnïau sectorau uchel eu gwerth.

Bydd y cais yn hollbwysig o ran gwireddu delfryd twf economaidd y rhanbarth a chynyddu chynhyrchiant sydd i'w fesur yn ôl gwerth crynswth ychwanegol.

Bydd y cais yn gofyn i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan wneud pethau penodol.

Cydbwyllgor awdurdodau lleol fydd yn llywodraethu'r broses yn unol â gofynion Llywodraeth San Steffan. Bydd y cydbwyllgor yn gofyn am sêl bendith y cylch trawsbleidiol ar ei gynigion.

Fe ddywedodd y Cynghorydd Derek Butler (Cadeirydd Cynghrair Merswy Dyfrdwy) fod Cylch Trawsbleidiol y Gogledd a Glannau Merswy Dyfrdwy yn San Steffan wedi mynegi cefnogaeth gref o blaid gwaith ei gynghrair a siroedd y gogledd. Ei obaith oedd y byddai'r ddau gylch yn San Steffan a Bae Caerdydd yn cydweithio'n dda yn y dyfodol. Gofynnodd i gylch Caerdydd wahodd aelodau o gylch San Steffan i achlysur ei gyflwyno swyddogol.

## Cyfarfod gwaith

Cynigiwyd, cefnogwyd a chymeradwywyd yn unfrydol mai Hannah Blythyn AC fyddai'r cadeirydd ac mai Stephen Jones (Cydlynydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dros Ranbarth y Gogledd) fyddai'n cyflawni rôl ysgrifenyddol.

Cytunwyd y byddai dau is-gadeirydd i helpu'r cadeirydd i reoli'r cylch.

Cynigiwyd, cefnogwyd a chymeradwywyd yn unfrydol y byddai Mark Isherwood yn un o is-gadeiryddion y cylch.

Cynigiwyd, cefnogwyd a chymeradwywyd yn unfrydol y byddai Plaid Cymru yn enwebu un o'i haelodau sy'n cynrychioli'r gogledd yn y Cynulliad yn is-gadeirydd, hefyd. Fe gytunodd Llŷr Griffith AC i roi hynny gerbron cylch ei blaid yn y Cynulliad a chyflwyno enw'r sawl a oedd wedi'i enwebu i'r cadeirydd maes o law.

Fe fyddai cyfarfod nesaf Cylch Trawsbleidiol y Gogledd a Glannau Merswy Dyfrdwy yn y Cynulliad Cenedlaethol yn y gogledd i'w gyflwyno ei hun yn gyhoeddus a rhoi ei nodau gerbron pobl y rhanbarth – a hynny cyn mis Awst 2017, yn ddelfrydol. Byddai'n pennu dyddiad a lle'r cyfarfod hwnnw ar ôl ymgynghori â phawb trwy ebost.